## Rydych wedi derbyn llythyr A3 ar bapur PINC sef Ffurflen Gyfathrebu y Canfasiad.

Darllenwch eich ffurflen a sicrhau bod y manylion yn gywir.
Os ydych am ychwanegu etholwr neu ddileu rhywun nad yw'n byw yn yr eiddo mwyach, bydd angen i chi wneud un o'r canlynol:

- Ewch i www.registersecurely.com/VoG , rhoi eich cod diogelwch 1 a 2 sydd ar y llythyr A4 a gwneud unrhyw newidiadau; neu
- ffoniwch 0800 0608 799, rhoi eich cod diogelwch sydd ar y llythyr A4 a gwneud unrhyw newidiadau.
- Llenwch y ffurflen a'i hanfon yn ôl yn yr amlen ymateb busnes sydd â'r cyfeiriad Cyngor Bro Morgannwg.

Sylwer

Mae'r ffordd i wneud cais am bleidleisiau drwy'r post bellach wedi newid.  Gallwch nawr ddewis pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy ar gyfer naill ai etholiadau a gedwir yn ôl (Etholiadau Seneddol y DU ac etholiadau Comisiynydd Heddlu a Throseddu), Datganoledig (Senedd a Lleol) neu bob etholiad. Bydd angen i chi ddarparu rhif yswiriant gwladol ar gyfer pleidleisiau a gedwir yn ôl. Trwy nodi'r ffurflen ganfasio gydag ie neu na ar gyfer pleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy gallwn anfon cais papur am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy atoch. Neu gallwch nawr gwblhau cais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy ar-lein ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl (Etholiadau Seneddol y DU ac etholiadau Comisiynydd Heddlu a Throseddu) yn unig drwy fynd i www.gov.uk/gwneud-cais-pleidlais-drwyr-post neu www.gov.uk/gwneud-cais-pleidlais-drwy-ddirprwy

Bydd angen i chi gwblhau cais papur ar gyfer etholiadau Datganoledig (Senedd a Lleol) o hyd.

Os nad ydych yn ymateb i'r llythyr terfynol hwn erbyn **dydd Llun 17 Tachwedd 2025**, ni fydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i fanylion eich aelwyd wrth gyhoeddi'r Gofrestr Etholwyr ddiwygiedig **ddydd Llun 1 Rhagfyr 2025**.

Byddem yn gwerthfawrogi ymateb prydlon yn ystod y broses hon.

Cofiwch, o ganlyniad i newidiadau i ddeddfwriaeth, gellir nawr ychwanegu plant 14-16 oed i'r Gofrestr yn barod iddynt droi'n 16 oed. Dim ond mewn rhai etholiadau y byddant yn gallu pleidleisio ynddynt, nid pob etholiad.




